Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

## DYDD MERCHER 14 MEDI 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Y berthynas rhwng y Cynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol |
| AWDUR: | Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol |

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhannu'r cyngor a roddwyd i Gyngor Sir Ddinbych gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, gan ymateb i nifer o gwestiynau sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng y Cynllun Datblygu Strategol (CDS) sy'n dod i'r amlwg a'i adolygiad Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) sy'n dod i'r amlwg.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

### 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Cynorthwyo Aelodau i ddeall sefyllfaoedd perthnasol y Cynllun Datblygu Strategol a'u Cynlluniau Datblygu Lleol.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Yn ddiweddar, gofynnodd Cyngor Sir Ddinbych i'r CBC a fyddai'n rhoi cyngor mewn ymateb i gyfres o gwestiynau yn ymwneud â sefyllfa berthnasol y Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg a'u hadolygiad o'u Cynllun Datblygu Lleol. Mae Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn ystyried yr angen o bosib i ddechrau'r adolygiad o'r newydd, yn dilyn rhagamcanion anghenion tai newydd ac uwch a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

4.2. Gofynnwyd y cwestiynau gan y Cynghorydd Merfyn Parry, sef Aelod o Bwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych a Chadeirydd eu Panel Cynllun Datblygu. Mae'r cwestiynau wedi'u geirio'n dda ac yn berthnasol iawn nid yn unig i'r sefyllfa benodol y mae Sir Ddinbych ynddi, ond y gobaith yw y bydd yn berthnasol i holl Aelodau Arweiniol Awdurdodau Cynllunio Lleol ac yn helpu i osod cyd-destun rhwng y Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg a'u sefyllfa gyda'u hadolygiadau Cynllun Datblygu Lleol.

4.3. Mae'r nodyn ymateb i Sir Ddinbych wedi'i atodi fel atodiad 1 ac mae'r CBC yn ddiolchgar i'r Cynghorydd Parry a Paul Mead, y Rheolwr Datblygu, am gytuno i rannu hyn gyda'r pwyllgor ehangach. Gofynnir i'r aelodau ystyried y nodyn a rhoi adborth neu godi ymholiadau eu hunain yn y cyfarfod arfaethedig.

### 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd y costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd lle gwnaed darpariaeth i gefnogi'r gwaith hwn, gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC.

Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau pob cyfle am ragor o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

---

## ATODIADAU:

**Atodiad 1:** Ymateb i Gyngor Sir Ddinbych ar y berthynas rhwng y Cynllun Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg a'r Cynlluniau Datblygu Lleol.

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

### i. Swyddog Monitro:

"Mae gan y CBC ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ac mae'r fframwaith statudol wedi'i ystyried gan y Pwyllgor hwn. Mae'r argymhellion ar gyfer nodi yn unig ac nid ydynt yn cymeradwyo unrhyw safbwynt polisi gwirioneddol, strategaeth a ffefrir, dyrannu safle neu ddogfen ymgynghori.

Wrth i'r Cynllun Datblygu Strategol fynd rhagddo, bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol nodi ymhellach y cam statudol perthnasol, gofynion ymgynghori, dyletswyddau asesu, ac ati. Gall gweithdai anffurfiol i Aelodau gynorthwyo datblygiad y Cynllun Datblygu Strategol, ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer ymgysylltu a thrafodaeth yn unig, gydag unrhyw allbynnau materol yn cael eu bwydo i'r broses ffurfiol o adrodd a gwneud penderfyniadau."

### ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisiwyd ac mae'r costau a amcangyfrifir o gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael eu hystyried yn barhaus. Bydd yn cael ei gynnwys yn ein gwaith fel rhan o'r adolygiadau cyllideb rheolaidd, y broses gyllideb flynyddol yn ogystal ag yn y cynllun ariannol tymor canolig."